# CRYNODEB O ARFARNIAD A CHYNLLUN DATBLYGU YSGOL BRO ALUN 2024-25 A BLAENORIAETHAU 2025-26

Rydym yn adolygu'n barhaus ble'r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella i sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg orau yn Ysgol Bro Alun.Trwy'r broses o hunan-arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant.

## EIN CRYFDERAU

### Arweinyddiaeth

Mae fframwaith hunan arfarnu rheolaidd mewn lle sy'n sicrhau bod adolygu parhaus yn ran annatod o fywyd yr ysgol.

Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgol

### Addysgu a dysgu

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol wedi eu sefydlu yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae amgylchedd diogel a symbylus ar draws holl ardaloedd dysgu ble gall plentyn fentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.

Mae blaenoriaeth cyson yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau llythrennedd rhifedd a digidol y disgyblion ar draws y cwricwlwm.

### Cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm yn gydlynus er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach.

Mae ein cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd .

Mae ein cwricwlwm yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog sy'n meithrin disgyblion sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod a diwylliant ein hardal leol.

### Lles, Tegwch a Chynhwysiant

Mae strwythurau a phrosesau cadarn iawn ar gyfer cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae trefniadau cadarn mewn lle i asesu a chefnogi lles disgyblion.

## LLWYDDIANT BLAENOROL

- Codi safon llafar y disgblion
- Gweler adroddiad interim ESTYN
- Yr ysgol wedi llwyddo i ennill yr wobr ol aur Siarter Iaith

- Sicrhau cysondeb o ran dulliau addysgu a dysgu
- Disgyblion wedi magu hyder, annibynniaeth a pharch at waith.
- Disgyblion yn gyson yn gwerthuso'r gwaith ar ddiwedd gwersi.

- Gwella sgiliau Rifedd gyda ffocws ar rif.
- Wrth ddefnyddio'r cynllun gwaith mae mwy o strwythur/camau adeiladu o fewn uned o waith sydd yn galluogi'r disgyblion i ddeall y cysyniadau.

# BLAENORIAETHAU GWELLA

Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2025-2026 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gorau y gallwn i'n disgyblion.

## 1

**Parhau i wella safonau'r Gymraeg ar draws yr ysgol gan gychwyn gyda pharodrwydd disgyblion i gyfathrebu yn y Gymraeg.**

Rhesymau dros y flaenoriaeth:
Angen parhau i magu hyder, rhugldeb a pharodrwydd y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg. Credwn trwy gyfoethogi eu sgiliau iaith lafar y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hysgrifennu.
Targed:
Disgyblion yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn naturiol ar fuarth yr ysgol a thu hwnt i'r dosbarth mewn iaith gywir, cyfoethog a graenus. Bod gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn adlewyrchu hyn.

## 2

**Ymddygiad a lles y disgyblion**

**Rhesymau dros y flaenoriaeth:**
I leihau'r nifer o ddigwyddiadau ymddygiad lefel uwch.
**Targed:**
Sicrhau bod y disgyblion yn hapus, yn ddiogel ac yn ffynnu yn yr ysgol.

## 3

**Datblygu'r ddarparieth tu allan i'r dosbarthiadau i sicrhau cyflenwad o adnoddau addas a darparu cyfleoedd i gymhwyso sgiliau rhifedd y disgyblion.**

**Rhesymau dros y flaenoriaeth:**
Argymhelliad o'r arolwg interim.
**Targedau:**
Sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

## 4

**Parhau i ddatblygu cysondeb o ran dulliau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.**

**Rhesymau dros y flaenoriaeth:**
**Cysoni'r ddarpariaeth i bob disgybl**

**Targedau:**
Plant yn cymryd balchder yn eu gwaith

**Pwy sy'n Cefnogi?**
Awdurdod Lleol
Cydlynudd Siarter Iaith
Gwasanaeth Cefnogi Hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg